# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 12 Ionawr 2017
# i'w hateb ar 17 Ionawr 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo pobl ag anableddau yng Nghymru? OAQ(5)0369(FM)

2. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi ffermwyr yn Sir Benfro? OAQ(5)0365(FM)

3. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau gwastraff bwyd yng nghartrefi Cymru? OAQ(5)0373(FM)

4. Hefin David (Caerffili): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau ar gyfer caffael cerbydau newydd ar ddechrau masnachfraint reilffyrdd newydd Cymru a'r Gororau? OAQ(5)0371(FM)

5. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): Pa bryd y gwnaeth y Prif Weinidog gyfarfod ddiwethaf â Phrif Weinidog y Deyrnas Unedig i drafod perthynas Cymru â'r Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0372(FM)**W**

6. Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): A wnaiff y Prif Weinidog ddatgan pa gynlluniau sydd ganddo i drafod y pecyn o gynigion y mae TATA Steel wedi'i gyflwyno i'r gweithlu gyda'r Cadeirydd dros dro, Ratan Tata? OAQ(5)0370(FM)

7. Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar gynllun ffordd osgoi Caernarfon/Bontnewydd? OAQ(5)0367(FM)**W**

8. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cymorth ariannol sydd ar gael i fusnesau newydd yng Nghymru? OAQ(5)0378(FM)

9. David Rees (Aberafan): A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion am strategaeth ddiwydiannol Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0384(FM)

10. **Leanne Wood (Rhondda):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion Llywodraeth Cymru i wella gwybodaeth am wleidyddiaeth? OAQ(5)0368(FM)

11. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer de-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0366(FM)

12. **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael yn ddiweddar â Llywodraeth y DU ynghylch ymadael â'r UE? OAQ(5)0376(FM)

13. **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu ymarfer corff ledled Cymru? OAQ(5)0379(FM)

14. Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cymorth ar gyfer undebau credyd yng Nghymru? OAQ(5)0383(FM)

15. Caroline Jones (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella seilwaith technoleg gwybodaeth y GIG yng Nghymru? OAQ(5)0381(FM)